TGAU

3000N30-1A

DYDD MAWRTH, 4 MEHEFIN 2024 – BORE

# CYMRAEG IAITH

## Uned 3

## Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Perswâd a Chyfarwyddiadol


2 awr a'ch amser estynedig

# DEUNYDD DARLLEN I'W DDEFNYDDIO GYDAG ADRAN A

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

SJJ*(S24-3000N30-1A-MLP-A3-36)

# DARN DARLLEN 1
# YNYSOEDD CYMRU




(Trowch y dudalen)

# DARN DARLLEN 2
# DEWCH I YMWELD AG YNYS ENLLI

## Dewch i ymweld ag Ynys Enlli

**£45** i bob oedolyn

**£25** i bob plentyn

Mae'r cwch yn gallu cario **12** person.

Mae'r tripiau yn ddibynnol ar dywydd ffafriol. Gallant gael eu canslo.

Mae Ymddiriedolaeth Ynys Enlli wedi gwahardd cŵn – heblaw cŵn tywys.

(Trowch y dudalen)

Dewch ar daith i bendraw Llŷn i Ynys Enlli. Cewch ddilyn Llwybr y Pererinion mewn cwch cyflym, cyfoes. Rydym yn cychwyn o Borth Meudwy ger Aberdaron bob dydd, os yw'r tywydd yn caniatáu a bod digon eisiau mynd. Mae hyn yn golygu pob diwrnod braf o fis Mawrth hyd fis Tachwedd, a phan fydd hi'n bosib dros y gaeaf.

Cewch weld cyfoeth o adar, *llamhidyddion a morloi llwyd yng ngogoniant eu cynefin naturiol. Cewch gyfle i fwynhau heddwch arbennig yr ynys unigryw hon am bedair awr, yng nghwmni'r ugain mil o saint sydd wedi'u claddu yma. Cewch deimlo'n un â hanes ysbrydol a chrefyddol yr ynys, yn ogystal â byd natur.

*llamhidyddion – creaduriaid tebyg i ddolffin

(Trowch y dudalen)

Er mwyn cyrraedd Porth Meudwy, o ganol pentref Aberdaron, gyda siop Spar ar eich chwith, ewch dros y bont gyntaf a throwch i'r dde am Uwchmynydd a Phorth Oer. Ewch i fyny'r ffordd ac ymhen ½ milltir trowch i'r chwith am Uwchmynydd. Ymhen 400 llath ewch i'r chwith eto am wersyll Tir Glyn, ac yna chwiliwch am fferm Cwrt ar y dde. Ymhen 75 llath ar ôl Cwrt, edrychwch am arwydd Porth Meudwy. Y cod post yw LL53 8DA.

Mae 10 munud o gerdded i Borth Meudwy o'r maes parcio. Os nad yw eich ffitrwydd corfforol yn dda, rhowch wybod. Mi wnawn ein gorau i sicrhau taith ddiogel a chyfforddus i'r ynys i chi.

(Trowch y dudalen)

**Mae'n rhaid bwcio o flaen llaw i fod yn siŵr o gael lle, er weithiau bydd gennym lefydd gwag ar y cwch i rai a ddaw ar fyr-rybudd i Borth Meudwy.**

**Er mwyn archebu lle ar y daith, ffoniwch 01758 123 456.**








**(Trowch y dudalen)**

# DARN DARLLEN 3
# A WYDDOCH CHI...?

## A Wyddoch Chi ...?



Guglielmo Marconi

Ynys ym Môr Hafren yw YNYS ECHNI sydd tua thair milltir a hanner o Larnog, Bro Morgannwg. Dyma bwynt mwyaf deheuol y wlad.

Mae’r ynys yn enwog ledled y byd gan mai yma y daeth y dyfeisiwr 22 oed Guglielmo Marconi o’r Eidal i Brydain i brofi ei system delathrebu. Llwyddodd Marconi i drosglwyddo’r negeseuon di-wifr cyntaf erioed ar draws y môr, o Ynys Echni i Drwyn Larnog, gan greu hanes ym myd telathrebu. Anfonodd neges gychwynnol mewn cod Morse: “Allwch chi fy nghlywed i?”. Yn fuan wedyn, derbyniodd Marconi ateb:

(Trowch y dudalen)

**“Gallaf, yn glir ac yn uchel”. Mae recordiad o’r clip hwnnw o’r neges gyntaf bellach yn cael ei gadw yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru.**

**(Trowch y dudalen)**

Ynys fechan ydy YNYS GWALES, tua naw milltir i'r de-orllewin o arfordir Sir Benfro. Gwales yw'r tir mwyaf gorllewinol yng Nghymru. Grassholm yw'r enw Saesneg ar yr ynys. Daw'r enw o'r geiriau Hen Norseg grass, sef 'gwair' a holm sef 'ynys isel'.



Huganod Ynys Gwales

Ers 1947 bu'n warchodfa adar gan yr RSPB ac mae bellach yn gartref i 39 000 pâr o huganod magu, yr unig nythfa o huganod yng Nghymru.
Mewn llenyddiaeth Gymraeg mae Ynys Gwales yn fwy adnabyddus fel ynys arallfydol. Yn chwedl Branwen ferch Llŷr, mae'r saith gŵr a ddihangodd o Iwerddon yn treulio 80 mlynedd ar yr ynys yng nghwmni pen Bendigeidfran, yn gwledda ac yn mwynhau heb brofi gofid na galar.

(Trowch y dudalen)

Os gwelsoch chi raglen deledu lwyddiannus y BBC, Gavin & Stacey, byddwch chi'n gyfarwydd â phenrhyn bach glan-môr o'r enw YNYS Y BARRI. Yn y gorffennol, roedd yn ynys go iawn, ond yn ystod oes Fictoria, adeiladwyd porthladd, gan gysylltu'r ynys â'r tir mawr.



Traeth Ynys y Barri

Mae Parc Pleser Ynys y Barri yn berffaith ar gyfer pobl ifanc ac oedolion sy'n hoffi antur a chyffro. Bydd yn sicr o godi curiad eich calon. Mae reidiau ffair o bob math yma, gan gynnwys rollercoaster, reid ddŵr, dodgems a waltzer. Mae digon i ddiddanu'r plant llai hefyd gyda thrampolinau, cychod pedal ac atyniadau ffair traddodiadol.

(Trowch y dudalen)

DARN DARLLEN 4
BLOG DIC ABERDARON

# Blog Dic Aberdaron

## Ble mae Ynys Afallon?



Cymeriad diddorol sy'n ymddangos yn aml mewn barddoniaeth a chwedlau Cymraeg o'r cyfnod cynnar yw'r Brenin Arthur. Ef oedd arweinydd dewr y Brythoniaid (y Cymry) a oedd yn ymladd yn erbyn y Sacsoniaid yn y 6ed ganrif.

Brwydr olaf y Brenin Arthur oedd Brwydr Camlan. Dywedir i Arthur gael ei gario i Ynys Afallon wedi iddo gael ei anafu'n ddifrifol yn y frwydr waedlyd honno.

(Trowch y dudalen)

Ond tybed ble mae Ynys Afallon?

Wel, i mi does dim amheuaeth. Ynys Enlli ydy Ynys Afallon, ac mae digon o gysylltiadau a thystiolaeth yn profi hynny.

Rwy’n sicr mai ym Mhorth Cadlan, ger Aberdaron y cafodd Brwydr Camlan ei hymladd gan mai ystyr ‘cadlan’ ydy ‘maes brwydr’. Rheswm arall ydy’r ffaith mai nawddsant Aberdaron ydy Hywyn, a’i fam ef oedd Gwenonwy. Oddi ar arfordir Aberdaron mae craig fawr yn y môr a’i henw hi ydy Maen Gwenonwy. Wrth gwrs, roedd Gwenonwy yn chwaer i Arthur. Yng nghanol y 6ed ganrif y digwyddodd Brwydr Camlan. Dyna’r cyfnod y sefydlodd Hywyn ei eglwys yn Aberdaron. Mae’n ddigon posib felly i Gwenonwy a Hywyn fod yn llygad-dystion i Frwydr Camlan.

(Trowch y dudalen)

**Os nad ydych chi'n credu bod y ffactorau hyn yn dal dŵr, mae rhagor! Mae dogfennau swyddogol yn nodi fod Ynys Afallon wedi'i lleoli rhwng Borth yng Ngheredigion ac Arklow yn Iwerddon. Enlli yw'r ynys fwyaf o fewn yr ardal honno. Yn ôl yr hanes, aethpwyd ag Arthur i Ynys Afallon ar fwrdd llong gyda thair brenhines yn gofalu amdano. Cafodd ofal mewn palas o wydr gan y Frenhines Morgan a'i naw morwyn. Yn y palas gwydr roedd coed afalau yn tyfu. Ai cyd-ddigwyddiad diddorol yw i goeden Afal Enlli, sy'n fath unigryw, gael ei darganfod ar Ynys Enlli yn ddiweddar?**

**Yn olaf, yn y môr i'r de-orllewin o Enlli mae lle stormus o'r enw Corffrydiau Caswennan yn ôl tystiolaeth map o 1748. Yma, yn ôl traddodiad, y suddodd 'Gwennan', hoff long y Brenin Arthur.**

**(Trowch y dudalen)**

Fodd bynnag, nid pawb sy’n cytuno. Cred rhai mai Ynys Wydrin (Glastonbury) yn Lloegr yw Ynys Afallon. Er nad yw’n ynys heddiw, mae’r ardal wedi’i hamgylchynu yn llwyr gan gorstiroedd a thir gwlyb. Enw arall ar Ynys Afallon yn y Gymraeg oedd Ynys Afallach, sy’n golygu Ynys yr Afalau a thyfai’r ffrwyth hwn yn helaeth yn Ynys Wydrin ar un adeg.




Ond yn 1191, daeth mynachod Abaty Glastonbury o hyd i fedd gyda thair arch ynddo. Daethant o hyd iddynt tra’n ail-adeiladu rhan o’r abaty a oedd wedi’i dinistrio gan dân yn 1184. Roedden nhw’n honni mai Arthur a Gwenhwyfar (ei wraig) oedd piau’r esgyrn pydredig mewn dwy arch. Ar un arch roedd croes o blwm gyda’r geiriau: ‘Yma y gorwedd yr enwog frenin Arthur yn Ynys Afallon’. Yn yr arch

(Trowch y dudalen)

**honno roedd gweddillion gŵr 2.40 metr o daldra! Cawr o ddyn yn wir! Ond ai twyll oedd hyn i ddenu cyfraniadau ariannol tuag at ailadeiladu'r abaty tybed?**

**Beth ydych chi'n ei feddwl?**

**(Trowch y dudalen)**

DARN DARLLEN 5
Cymro o Love Island

# Cymro o Love Island yn darganfod hanes ei hynafiaid yn Jamaica



Mae Connagh Howard, seren Love Island, a'i dad Wayne, wedi bod ar daith bersonol iawn i Jamaica, ar drywydd hanes eu teulu.

Yn y gyfres newydd o Teulu, Dad a Fi ar S4C, mae'n olrhain gwreiddiau ei deulu yn ôl i Affrica. Cafodd ei hynafiaid eu cludo o Affrica ar long hwylio i Jamaica fel caethweision.

(Trowch y dudalen)

Yn 19 oed, dihangodd Neville, sef tad Wayne, o Jamaica ar fwrdd un o’r llongau cyntaf i gludo mewnfudwyr o’r Caribî i Brydain ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Roedd hyn chwe mis cyn i long enwog y Windrush hwylio.

Pan laniodd yr SS Almanzora yn Southampton yn Rhagfyr 1947, roedd Neville yn un o 31 oedd heb dalu am eu tocyn. O ganlyniad, treuliodd Neville 28 diwrnod, gan gynnwys Dydd Nadolig, yn y carchar am deithio heb docyn. Ar ôl ei ryddhau teithiodd ymlaen i Gaerdydd.

Yno cyfarfu â Shirley Gibson, priodi a magu teulu o wyth, pump o ferched a thri bachgen, a bu Neville yn gweithio fel peintiwr ac addurnwr i Gyngor Caerdydd. Roedd ardal Tiger Bay ym mhrifddinas Cymru yn gyrchfan a oedd yn denu pobl

(Trowch y dudalen)

o India'r Gorllewin. Fel porthladd roedd gan y ddinas eisoes gymuned fywiog o gefndiroedd ethnig a oedd yn mynd o nerth i nerth.

Yn y drydedd raglen aiff Connagh a Wayne yn ôl i'r ynys yn y Caribî (a adawodd Neville 76 blynedd yn ôl) ar gyfer ymweliad emosiynol iawn. Aiff y rhaglen â nhw i Trenchtown, ardal yn Kingston, prifddinas Jamaica, a ddaeth yn enwog oherwydd y canwr reggae chwedlonol Bob Marley. Mae Trenchtown yn agos i'r fan lle cafodd Neville ei fagu. Hefyd, maen nhw'n mynd ar ymweliad â safle a oedd yn cadw caethweision.

(Trowch y dudalen)

Meddai Connagh, a fynychodd Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf: “Roedd yn daith anhygoel lle gwnes i ddarganfod llawer. Roedden ni yno yn yr union fan lle ganwyd fy hen hen dad-cu a lle’r oedd fy hynafiaid wedi cael eu caethiwo. Roedd bod yno yn Jamaica gyda fy nhad a gallu rhannu’r profiad gydag ef yn anhygoel.”

Dywedodd Wayne ei fod yn brofiad arbennig ymweld â mamwlad ei dad yn Jamaica gyda’i fab ac ychwanegodd: “Roedd yn emosiynol iawn ac roeddwn i’n eithaf blin gyda’r ffordd roedd pobl wedi cael eu trin. Dyma fy hynafiaid ac roedden nhw wedi’u rhestru yn llyfr caethweision yr ystâd fel nwyddau, a’u categoreiddio yn ôl faint o waed du oedd ganddyn nhw.”

BYDD RHAGLEN GYNTAF Y GYFRES DAIR RHAN, TEULU, DAD A FI, YN CAEL EI DARLLEDU AM 9PM NOS FAWRTH, MAWRTH 7.